Cynllun Grant Gwirfoddoli Cymru – Dyfarniadau Grant Strategol

Mudiad	Disgrifiad o'r Prosiect	Grant a ddyfarnwyd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd yn ystod 2021/22, bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â GAVO i safoni arferion a pholisïau gwirfoddoli yn y mudiad, tyfu'r Cynllun Gwirfoddoli i Gyflogeion, datblygu cyfleoedd gwirfoddoli a fydd yn denu ein contractwyr yn y sector preifat ac yn edrych ar lwybrau gwirfoddoli newydd o fewn y mudiad.	£ 100,000.00
Foothold Cymru	Rhoi'r cyfle gorau i bobl ifanc (11-16), nad ydynt erioed wedi gwirfoddoli, wneud gweithgareddau, drwy ddatblygu cyfres o adnoddau, wedi'u cyd-gynhyrchu â phobl ifanc, y gellir eu rhannu a'u defnyddio gan fudiadau'r trydydd sector ac ysgolion i hyrwyddo cynhwysiant mewn gwirfoddoli a chysylltu â'r cwricwlwm newydd.	£ 98,498.61
Innovate Trust	Nodi sut gall gweithredu gwirfoddol ar-lein liniaru'r risg o unigrwydd ac unigedd ymhlith pobl ag anableddau dysgu, yn enwedig ymhlith y rheini sy'n cael anhawster cael mynediad at weithgareddau prif ffrwd yn y gymuned.	£ 54,401.52

St Giles Trust	Bydd St Giles Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid yn y Trydydd Sector, y Sector Preifat a'r Sector Cyhoeddus i edrych, deall ac ymateb i'r anghenion a'r cyfleoedd i Wirfoddolwyr 'anhraddodiadol' a mudiadau darparu i ddatblygu Model Gwirfoddoli Profiad Bywyd a Fframwaith Ansawdd ar gyfer Cymru.	£ 99,793.00
Greenstream Flooring	Cael gwell cydweithrediad, cefnogaeth, ansawdd a chydnabyddiaeth o rôl wirfoddoli o fewn amgylchedd newid hinsawdd o fewn Rhondda Cynon Taf ac, o bosibl, tu hwnt. Mae'r prosiect hwn yn ceisio datblygu dull cydweithredol a chydlynol o gefnogi gwirfoddoli mewn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd, gan gydnabod bod camau bach yn arwain at gyfraniadau gwerthfawr.	£ 75,848.49